

**13.1a DYFARNU TEITL ATHRO:  
GWEITHDREFN AR GYFER  
DYFARNU CADAIR BERSONOL –  
YMGEISWYR ALLANOL**

## PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

### DYFARNU TEITL ATHRO: GWEITHDREFN AR GYFER DYFARNU CADAIR BERSONOL – YMGEISWYR ALLANOL

#### 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r adran hon yn y Llawlyfr Academaidd yn disgrifio'r gweithdrefnau a fabwysiedir gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer dyfarnu Cadeiriau Personol i ymgeiswyr allanol.

#### 2. Meini Prawf ar gyfer Cadair Bersonol Prifysgol Metropolitan Caerdydd

2.1 Bydd rhaid i bob ymgeisydd am Gadair Bersonol fod yn gallu dangos y canlynol yn eu cais:

(i) Cyfraniad eithriadol cyson er mwyn lledaenu ac ymestyn gwybodaeth drwy un neu unrhyw un o'r canlynol mewn cyfuniad:

- a. *Dysgu ac Addysgu* wedi'u cefnogi gan dystiolaeth briodol, er enghraifft: portffolio o gyflwyniadau a chyhoeddiadau addysgol uchel eu parch, dylunio cwricwla a dangosyddion cydnabyddedig ar lefel ryngwladol megis cymrodoriaeth addysgu genedlaethol, profiad allanol o werthuso dysgu ac addysgu (e.e., QAA) a chyllid ar gyfer datblygu dysgu ac addysgu;
- b. *Ymchwil* wedi'i gefnogi gan dystiolaeth briodol, er enghraifft: portffolio o gyhoeddiadau ymchwil rhyngwladol sylweddol wedi'u hadolygu gan gymheiriaid neu allbwn a fydd yn berthnasol i'r ddisgyblaeth, cyllid allanol ar gyfer ymchwil arwyddocaol a dylanwadol; profiad llwyddiannus yn goruchwyllo ac yn arholi ymchwil; a dangosyddion cydnabyddedig megis gwobrau, gwahoddiadau i draddodi prif gyflwyniadau rhyngwladol a swydd ar gymdeithasau, byrddau a phwyllgorau allanol;
- c. *Arloesedd* wedi'i gefnogi gan dystiolaeth briodol, er enghraifft: portffolio o allbwn gwerthfawr sy'n berthnasol i weithgareddau trosglwyddo gwybodaeth, arloesedd neu entrepreneuriaeth, record lwyddiannus o sicrhau cyllid allanol ar gyfer arloesedd; datblygu eiddo deallusol a dangosyddion cydnabyddedig ar lefel ryngwladol megis rolau ymgynghorol allanol blaenllaw a chyllid ar gyfer prosiectau arloesol;

- (ii) arweinyddiaeth sylweddol a/neu brofiad rheoli academiaidd-gysylltiedig a fydd yn berthnasol i gais unigol yr ymgeisydd.

### **3. Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr**

- 3.1 Mae'r grym gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr i ystyried ceisiadau am Gadeiriau Personol.
- 3.2 Mae Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr wedi'i ffurfio o:
- Y Llywydd a'r Is-Ganghellor (Cadeirydd)
  - Y Dirprwy Academiaidd i'r Is-Ganghellor
  - Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesedd
  - Dirprwy Is-Ganghellor Ymgysylltiad Myfyrwyr
  - Tri Athro wedi'u hethol gan y Bwrdd Academiaidd
- 3.3 Bydd y tri aelod etholedig yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod o ddwy flynedd â'r posibilrwydd o gael eu hail-benodi am hyd at gyfanswm o bedair blynedd yn ddi-dor.
- 3.4 Yn ogystal bydd dewis gan y Pwyllgor i gyfethol aelodau dros dro i'r Pwyllgor lle y bydd hynny'n briodol.
- 3.5 Ar gyfer ymgeiswyr allanol bydd dau aelod sefydlog/etholedig o leiaf o Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn ffurfio rhan o'r Panel Recriwtio.

### **4. Dyfarnu Teitl Cadair Bersonol i Benodiadau Bwrdd y Llywodraethwyr**

- 4.1 Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am ddyfarnu teitl Cadair Bersonol wedi i'r Bwrdd wneud penodiad
- 4.2 Mae gweithdrefn wahanol ar gyfer penodiadau Bwrdd y Llywodraethwyr.

### **5. Y Panel Recriwtio**

- 5.1 Llunnir rhestr fer gan y canlynol yn unol â Chanllawiau Recriwtio a Dewis y Brifysgol:
1. Y Llywydd a'r Is-Ganghellor (Cadeirydd y Panel Recriwtio);
  2. Y Dirprwy Academiaidd i'r Is-Ganghellor;
  3. Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesedd neu enwebai arall yr Is-Ganghellor sydd yn Athro;

4. Deon yr Ysgol berthnasol;
5. Dau aelod sefydlog/etholedig arall o leiaf o Bwyllgor Athrawon a Darllenwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Dylai'r aelodau hyn ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau wrth Gadeirydd y Panel Recriwtio cyn llunio'r rhestr fer.

5.2 Bydd y Panel Cyfweld yn cynnwys:

- .1 Pedwar o'r chwe pherson yn 5.1 o leiaf gan gynnwys yr Is-Ganghellor a Deon yr Ysgol fel arfer.
- .2 Un person allanol o leiaf a fydd yn Athro yn yr un maes neu faes tebyg i'r ymgeisydd. Ni ddylai'r aelod allanol o'r Panel Cyfweld fod yn gweithio yn yr un sefydliad neu fod ag unrhyw wrthdaro buddiannau â'r ymgeisydd. Nid yw'n ofynnol i berson allanol eistedd ar y panel cyfweld os yw'r ymgeisydd yn Athro Gwadd yn y Brifysgol yn barod, gan y byddwn wedi casglu barnau allanol fel rhan o'r weithdrefn Athro Gwadd.

5.3 Bydd 4 person o leiaf o'r rhestr yn 5.1 yn llunio'r rhestr fer. Fodd bynnag, yn ddelfrydol dylai'r rhestr fer gael ei llunio gan bob un o aelodau Panel Cyfweld Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

5.4 Caiff pob un o'r Deoniaid Ysgol a/neu enwebeion yr Is-Ganghellor a fydd yn eistedd ar y Panel Cyfweld eu hystyried yn aelodau cyfetholedig o Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr ar gyfer y broses recriwtio hon yn unig.

## 6. Gweithdrefn Penodiadau Allanol

6.1 Yn rhan o'u cais ar gyfer swydd, bydd ymgeiswyr yn cyflwyno cais yn ysgrifenedig i Adnoddau Dynol wedi'i gyfeirio i'r Llywydd a'r Is-Ganghellor. Dylai'r cais gynnwys cyfiawnhad manwl o blaid y dyfarniad a fydd heb fod yn fwy na phedwar tudalen A4 wedi'u teipio'n safonol a fydd yn cyfeirio'n glir at y meini prawf datganedig yn adran 2 ynghyd â CV llawn. Dylai ymgeiswyr gyfeirio'n benodol ac yn fanwl at y canlynol:

- (i) Pa un o'r dangosyddion ymestyn a lledaenu gwybodaeth yn 2.1(i) y mae eu cais yn canolbwyntio'n *bennaf* arno (h.y. dysgu ac addysgu, ymchwil, arloesedd) ynghyd â gwybodaeth ychwanegol a fydd yn ymdrin â'r dangosyddion eraill;
- (ii) Y teitl Athro a fwriedir ar gyfer yr ymgeisydd os bydd yn llwyddiannus (e.e., *Athro Seicoleg*).

- 6.2 Dylid rhoi tri chanolwr sy'n gallu rhoi sylwadau o ran pa mor addas yw'r ymgeisydd ar gyfer y penodiad o ystyried y swydd fel y bydd wedi'i hysbysebu a dyfarniad Cadair Bersonol.
- 6.3 Gwneir y rhestr fer yn unol â Chanllawiau Recriwtio a Dewis y Brifysgol.
- 6.4 Ar yr un pryd bydd y grŵp a fydd yn llunio'r rhestr fer hefyd yn asesu'r cais am Gadair Bersonol i gael pennu a oes achos *prima facie* i'r cais gael symud ymlaen. Ar gyfer ymgeiswyr a fydd yn Athro eisoes mewn sefydliad arall yn y DU, bydd achos *prima facie* wedi'i gytuno'n awtomatig.
- 6.5 Os na chaiff achos *prima facie* ei sefydlu, gellir asesu'r cais yn erbyn y meini prawf ar gyfer Darllenydd os bydd y swydd wedi'i hysbysebu â'r teitl hwnnw yn opsiwn arall.
- 6.6 Bydd yr ymgeiswyr y mae eu cais yn boddhau'r meini prawf ar gyfer Darllenydd yn unig yn cael gwybod pan gân nhw eu gwahodd i gyfweiliad a chaiff gweithdrefn Darllenydd ar gyfer ymgeiswyr allanol ei defnyddio o'r pwynt hwn ymlaen.
- 6.7 Bydd y Panel Recriwtio yn symud ymlaen yn unol â'r Canllawiau Recriwtio a Dewis.
- 6.8 Gall Cadeirydd y Panel gynnig swydd a dyfarnu Cadair Bersonol i'r ymgeisydd llwyddiannus yn dilyn y cyfweiliad, yn amodol ar dystlythyrau boddhaol ac na fydd dim yn rhwystro'r person rhag cael ei gyflogi.
- 6.9 Wedi'r cyfweiliad bydd AD yn trefnu i gael geirda oddi wrth y canolwyr ac yn eu dosbarthu i aelodau'r Panel ar gyfer penderfyniad terfynol ar y penodiad i'r swydd a hysbyswyd â'r teitl Cadair Bersonol. Wedi derbyn pob tystlythyr ynghyd â'r hawl i gyflogaeth a bod y rhain yn cael eu hystyried yn foddhaol gan y Panel, gellir cadarnhau bod y swydd yn cael ei chynnig. Os bydd y teitl Cadair Bersonol yn orfodol ond na fydd y geirda yn ddigonol ar gyfer y teitl, bydd hawl gan y Panel i dynnu'r cynnig cyflogaeth yn ôl.
- 6.10 Rhoddir gwybod i'r Bwrdd Academaidd hefyd am y penodiad.

## 7. Amodau

- 7.1 Rhoddir disgrifiad swydd a contract Athro a bydd y cyflog yn seiliedig i ddechrau ar Bolisi Cyflogau Athrawon. Fodd bynnag, os caiff yr ymgeisydd ei

benodi ar gontract rheolwr, fel arfer bydd y telerau a'r amodau, y disgrifiad swydd a'r cyflog yn unol â'r hyn a hysbysebwyd.

- 7.2 Fel arfer caiff teitl Cadair Bersonol ei ddyfarnu ar gyfer cyfnod cyflogaeth yr ymgeisydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.
- 7.3 Gall Pwyllgor Athrawon a Darllenwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd dynnu'r teitl Athro yn ôl oddi wrth gyflogai os bydd yr Athro hwnnw yn destun camau gweithredu o dan Weithdrefn Ddisgyblu (Camymddwyn a Pherfformiad Anfodhaol) lle bydd yn colli swydd neu'n cael darostyngiad. Bydd y Bwrdd Academaidd yn cael gwybod am gollir teitl a'r dyddiad y digwyddodd hyn.

## **8. Cyfle Cyfartal**

- 8.1 Yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal Prifysgol Metropolitan Caerdydd, mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl weithgareddau. Felly caiff unigolion ddyrchafiad ar sail eu haeddiant a'u gallu. Bydd Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn ystyried amgylchiadau an-academaidd a allai fod wedi cyfyngu neu fod wedi rhwystro datblygiad gyrfa broffesiynol ymgeisydd o ran maint yn hytrach nag ansawdd yr allbwn a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r teitl.